

Rhif: WG:29059



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori

Cam 1 y broses o weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal
Cymdeithasol (Cymru) 2016

Dyddiad cyhoeddi: 28 Mehefin 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 20 Medi 2016

Trosolwg Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn am gam 1 y broses o weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, gan gynnwys rheoliadau sy'n cael eu gwneud i gefnogi rheoleiddwyr, darparwyr gwasanaethau ac awdurdodau lleol i gyflawni gofynion y Ddeddf.

Sut i ymateb Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon, a'i dychwelyd erbyn hanner nos ar y dyddiad cau. Dylid anfon yr ymateb i:

Y Gangen Gweithredu Deddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Fel arall, mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan (<http://lyw.cymru/ymgynggori/?lang=cy>) a gellir ei hanfon atom, erbyn hanner nos ar y dyddiad cau, drwy'r e-bost i: R&ISCACT2016@wales.gsi.gov.uk

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon ar ffurf MS Word, mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu:
<http://lyw.cymru/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?skip=1&lang=cy>

Adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol:
<http://gov.wales/docs/dhss/publications/101207visioncy.pdf>

Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o Ddeddfwriaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion:
http://www.lawcom.gov.uk/wp-content/uploads/2015/03/lc326_adult_social_care_summary_Welsh.pdf

Adroddiad Bwrdd y Prosiect Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed:
<http://lyw.cymru/topics/health/publications/socialcare/reports/report/?skip=1&lang=cy>

Datganiad Llesiant ar gyfer Pobl Sydd Angen Gofal a Chymorth a Gofalwyr Sydd Angen Cymorth:
<http://lyw.cymru/topics/health/publications/socialcare/strategies/statement/?skip=1&lang=cy>

Papur Gwyn ar Reoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth
<http://gov.wales/docs/dhss/publications/140508whitepapercy.pdf>

**Manylion
cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth:

Cyfeiriad:

Y Gangen Gweithredu Deddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost: R&ISCACT2016@wales.gsi.gov.uk

ffôn: 029 20 82 6498

**Diogelu
data**

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Rhagair

Yn 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y papur gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*. Roedd hwn yn cyflwyno cynllun uchelgeisiol i fabwysiadu dull newydd, integredig, yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Er mwyn cyflwyno'r dull newydd hwn, yn ystod tymor y cynulliad diwethaf, gwnaethom ddau ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Mae Deddf 2016 yn sefydlu system newydd ar gyfer rheoleiddio ac arolygu a fydd yn amddiffyn hawliau dinasyddion Cymru i gael gofal diogel a phriodol, ac i gael eu trin ag urddas.

Er mwyn creu'r amgylchedd hwn, rydym yn diweddarau ein system ar gyfer arolygu a rheoleiddio darparwyr gofal. Bydd y gyfundrefn rheoleiddio ac arolygu newydd yn fwy cadarn a bydd yn ei gwneud yn haws i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), fel y rheoleiddiwr gwasanaethau, i gynnal trosolwg o'r gwasanaeth cyfan a ddarperir gan sefydliad. Bydd yn ei gwneud yn haws hefyd i ddarparwyr gofrestru ac i ddinasyddion gael gwybodaeth am ddarparwyr.

Ar yr un pryd, rydym yn gwella trefniadau rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac yn helpu pobl sy'n gweithio mewn gofal i ddatblygu eu sgiliau a darparu'r gofal gorau y gallant. Bydd hyn yn cael ei oruchwylio gan Gofal Cymdeithasol Cymru – y corff olynol i Gyngor Gofal Cymru – sydd â phwerau a chyfrifoldebau estynedig. Mae'r ddeddfwriaeth yn creu cofrestr o weithwyr gofal a fydd yn cael ei rheoli gan Gofal Cymdeithasol Cymru; bydd y gofrestr hon yn caniatáu inni atal pobl sy'n gweithio mewn gofal a allai gamddefnyddio'r ymddiriedaeth a'r dylanwad sy'n mynd law yn llaw â swydd mor bwysig.

Mae Deddf 2016 yn gosod yr agwedd gyffredinol at y gyfundrefn reoleiddio ac arolygu newydd; bydd manylion y system, gan gynnwys rheoliadau, cod ymarfer a chanllawiau, yn cael eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd yr is-ddeddfwriaeth yn cael ei datblygu mewn dau gam. Y cam cyntaf o reoliadau sydd o dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn; byddwn yn cynnal ymgynghoriad arall, ar yr ail gam, y flwyddyn nesaf.

Mae gofal cymdeithasol yn cyffwrdd â bywydau pawb yng Nghymru. Mae'n bosibl y byddwch chi, neu rywun sy'n agos atoch chi, angen defnyddio gwasanaethau rheoleiddiedig ar ryw adeg yn eich bywydau. Mae'n bwysig iawn, felly, fod y system ar gyfer rheoleiddio ac arolygu yn iawn o'r cychwyn cyntaf ac mae'n hanfodol inni gael eich barn chi am ein cynigion. Hoffwn ddiolch ichi am roi eich amser i ddarllen y ddogfen ymgynghori hon ac edrychaf ymlaen at glywed eich barn.

Rebecca Evans AC

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cefndir

Cafodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Tachwedd 2015 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n diwygio'r gyfundrefn ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Deddf 2016 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi yn eu lle nifer o ddarnau o is-ddeddfwriaeth, drwy wneud rheoliadau, a chyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer. Bydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru:

- ddiwygio'r gyfundrefn ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth, i sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar y canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau
- diwygio'r gyfundrefn ar gyfer arolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol
- ail-enwi Cyngor Gofal Cymru a rhoi pwerau newydd i'r corff
- diwygio'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Y dystiolaeth o blaid newid ac egwyddorion cyffredinol

Mae rheoleiddwyr yng Nghymru, ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chyngor Gofal Cymru yn bennaf, fel y sector gofal cymdeithasol yn ehangach, wedi gwneud llawer iawn i wireddu'r uchelgeisiau a fynegwyd pan gafodd Deddf Safonau Gofal 2000 ei rhoi ar waith. Roedd y fframwaith, yr oedd AGGCC a Chyngor Gofal Cymru yn brif rheoleiddwyr ar ei gyfer, yn gweithio'n dda inni ac, o ganlyniad, nid ydym wedi'i newid. Rhoddodd safonau sylfaenol inni - ar gyfer y gweithlu ac ar gyfer ein gwasanaethau gofal a chymorth. At hynny, mae trefniadau diogelu'r cyhoedd hefyd wedi gwella yn sgil cyflwyno'r fframwaith. O ganlyniad, mae llawer mwy o gysondeb rhwng gwasanaethau ac maent yn cynnig amddiffyniad gwell rhag achosion o gamdrin a chamfanteisio. Yn ogystal â hyn, lle nad yw gwasanaethau yn cyrraedd y safon ofynnol, mae hynny yn dod fwyfwy i'r amlwg. Rydym wedi llwyddo i wella perfformiad ac rydym yn parhau i weithio tuag at roi terfyn ar safonau isel drwy reoleiddio ac arolygu. Fodd bynnag, sylweddolom fod llawer o bethau yn newid a bod angen inni sicrhau bod ein trefniadau rheoleiddio yn aros yn gyfredol, heb iddynt gyfyngu ar wasanaethau. Felly, mae diwygio ein system ar gyfer rheoleiddio ac arolygu o dan Ddeddf 2016 yn seiliedig ar bum egwyddor allweddol:

1. Bod yn ymatebol i ddiwygiadau Deddf 2014
2. Sicrhau bod dinasyddion wrth galon gofal a chymorth
3. Datblygu dull rhesymegol a chyson yng Nghymru
4. Mynd i'r afael â methiannau darparwyr
5. Bod yn ymatebol i fodolau gwasanaeth newydd ac unrhyw bryderon sy'n codi ynghylch ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth.

Mae rôl bwysig gan y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn i'w chwarae i wireddu'r diwygio hyn.

Ble'r ydym ni arni nawr?

Bydd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn cael ei rhoi ar waith erbyn mis Ebrill 2019. Y nod yw y bydd y system newydd a sefydlir gan y Ddeddf ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu yn cael ei rhoi ar waith erbyn mis Ebrill 2017. I gyflawni hyn bydd yr holl reoliadau ynghylch y gweithlu yn dod i rym ym mis Ebrill 2017. Bydd y system newydd ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau a sefydlir gan y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith erbyn mis Ebrill 2019. Er mwyn caniatáu digon o amser i'r system newydd hon gael ei sefydlu, bydd yr holl reoliadau ynghylch gwasanaethau wedi dod i rym ym mis Ebrill 2018.

Roedd y datganiad o fwriad y polisi a gyhoeddwyd pan gafodd y ddeddfwriaeth ei chyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2015 yn amlinellu'r cynigion cyffredinol ar gyfer arfer y pwerau gwneud is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf. Gan adeiladu ar hyn, mae'r is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf yn cael ei datblygu mewn dau gam sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd.

Mae'r cam cyntaf yn cynnwys drafftio'r rheoliadau sy'n ofynnol i gyflwyno system newydd ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu o dan y Ddeddf. Mae'n canolbwyntio hefyd ar reoliadau drafft sy'n ymwneud â rhai o'r prosesau allweddol sy'n sail i'r system newydd ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau – y gofynion i gofrestru fel darparwr gwasanaeth, amrywio cofrestriad, datganiadau blynyddol darparwyr gwasanaethau, a gwybodaeth i'w chynnwys mewn hysbysiadau i awdurdodau lleol. Mae'n cynnwys hefyd reoliadau yn ymwneud â'r gofynion i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol gynhyrchu adroddiadau blynyddol. Cafodd y rheoliadau drafft hyn eu llywio gan drafodaethau grwpiau technegol y rhanddeiliaid a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2016.

Bydd y rheoliadau ynghylch gwasanaethau sy'n weddill yn cael eu drafftio, a bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal arnynt, yn ystod yr ail gam. Bydd y rheoliadau sy'n gosod dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol (o dan adrannau 27 a 28 o'r Ddeddf) yn cael eu datblygu yn ystod yr ail gam. Mae'r rheoliadau hyn yn gwbl hanfodol i'r system newydd ac mae llawer iawn o ddiddordeb ynddynt, wrth reswm. Byddwn yn cydweithio'n agos iawn â rhanddeiliaid i ddatblygu cynnwys y rheoliadau hyn. Rydym yn bwriadu galw ynghyd gyfarfodydd o grwpiau technegol y rhanddeiliaid i lywio datblygiad y rheoliadau penodol hyn o fis Medi 2016 ymlaen. Os hoffech gymryd rhan, cysylltwch â ni drwy'r e-bost: R&ISCACT2016@wales.gsi.gov.uk.

Mae llawer o'r pwerau gwneud rheoliadau yn y Ddeddf hon yn gysylltiedig â'i gilydd. Gallai cynnwys y rheoliadau a ddatblygir fel rhan o'r ail gam olygu bod angen newid manylion y rheoliadau ynghylch gwasanaeth a ddatblygwyd yn ystod y cam cyntaf. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am unrhyw newidiadau o'r fath i gyd-fynd â gosod y rheoliadau hyn ddiwedd 2017.

Yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn am y rheoliadau sydd wedi'u drafftio yn ystod y cam cyntaf. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi datblygu hefyd gynigion ar gyfer diffinio gwasanaeth eirioli rheoleiddiedig at ddibenion paragraff 7 o atodlen 1 y Ddeddf.

Mae rhagor o wybodaeth am y rheoliadau drafft yn y cam cyntaf i'w gweld yn yr adran ar y cynigion isod.

Y cynigion

Mae'r paragraffau a ganlyn yn cynnwys mwy o wybodaeth am y rheoliadau arfaethedig y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â hwy, yn ogystal â'r diffiniad arfaethedig o wasanaethau eirioli at ddibenion y Ddeddf.

Rheoliadau ynghylch Gwasanaethau

Crynodeb o'r rheoliadau ynghylch gwasanaethau

- Mae yna 3 set o reoliadau ynghylch gwasanaethau yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Maent yn cael eu gwneud o dan y pwerau gwneud rheoliadau yn adrannau 6, 10, 11 a 39 o'r Ddeddf.
- Mae'r rheoliadau drafft yn ymwneud â cheisiadau i gofrestru fel darparwr gwasanaeth (adran 6); ffurf a chynnwys datganiadau blynyddol darparwyr gwasanaethau, a'r terfyn amser ar gyfer eu cyflwyno (adran 10); ceisiadau am amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth (adran 11); a hysbysiadau i awdurdodau lleol ynglŷn â chamau gweithredu penodol (adran 39).
- Datblygwyd y rheoliadau gan gyfeirio at y fframwaith rheoleiddio presennol.

Rheoliadau ynghylch Ceisiadau i Gofrestru fel Darparwr Gwasanaeth (ATODIAD A)

Swyddogaeth Gweinidogion Cymru yw rheoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), y rheoleiddiwr gwasanaethau, yn ymgymryd â'r swyddogaeth hon ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu set o brosesau diwygiedig ar gyfer cofrestru gan ddarparwyr gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys y gofyniad i gofrestru yng Nghymru pan fo gwasanaethau'n cael eu darparu yng Nghymru a'r prosesau sydd ynghlwm wrth gyflwyno cais, ac amrywio a diddymu cofrestriad. Mae'n dod â dull sy'n seiliedig ar wasanaeth i effaith, sy'n gofyn i ddarparwyr gwasanaethau gyflwyno un cais i gofrestru (pa faint bynnag o wasanaethau a ddarperir); cais y gellir ei amrywio wedi hynny i ganiatáu i fwy o wasanaethau gael eu darparu mewn lleoliadau eraill.

Darparu dull mwy hyblyg a syml yw diben y polisi. Bydd y dull hwn yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr o ran cofrestru'r gwasanaethau y maent am eu darparu, a'r manau lle y maent am ddarparu'r gwasanaethau hynny. Diben arall yw rhoi mwy o hyblygrwydd i'r rheoleiddiwr gwasanaethau yn y modd y bydd yn ymgymryd â'i weithdrefn orfodi.

Y nod yw darparu digon o wybodaeth adeg y cofrestru er mwyn i'r rheoleiddiwr gwasanaethau allu gwneud penderfyniad cadarn ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd i ddarparu'r gwasanaeth rheoleiddiedig;

addasrwydd yr unigolyn cyfrifol; natur y gwasanaeth i'w ddarparu a'r lleoliad ar gyfer ei ddarparu. Bydd rhaid rhoi rhai materion ar brawf, a'u hasesu, drwy gyfweiliad. Sicrhau bod y gofynion ar ddarparwyr yn gymesur, ac osgoi dyblygu gwybodaeth a chasglu gwybodaeth yn ddianghenraid yw'r bwriad.

Mae adran 6 o'r Ddeddf yn disgrifio'r broses y gall person ei dilyn i wneud cais i Weinidogion Cymru i ddod yn ddarparwr gwasanaeth. Mae rhywfaint o'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth wedi'i gosod ar wyneb y Ddeddf. Mae'n cynnwys y gwasanaethau sydd i'w ddarparu; y manau y darperir gwasanaethau rheoleiddiedig ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy; dynodi unigolyn cyfrifol mewn perthynas â phob man o'r fath, ac enw a chyfeiriad yr unigolyn hwnnw.

Mae yna ddau bŵer gwneud rheoliadau yn adran 6 – adran 6(1)(d) ac adran 6(2). Mae'r rheoliadau o dan adran 6(1)(d) yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi'r wybodaeth bellach sydd ei hangen mewn cais i gofrestru ar gyfer darparu gwasanaeth gofal a chymorth. Mae adran 6(2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi ffurf cais a gaiff ei wneud o dan yr adran hon.

Mae'r rheoliadau drafft o dan adran 6(1)(d) yn nodi'r wybodaeth bellach fydd yn ofynnol fel rhan o'r cais. Bwriedir i gynnwys y rheoliadau drafft sicrhau bod gan y rheoleiddiwr gwasanaethau fynediad at yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol i benderfynu naill ai derbyn neu wrthod cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth, ac i gefnogi ei benderfyniad yn hyn o beth.

Yn ôl trafodaethau a gynhaliwyd â gweithgor y rhanddeiliaid a'r rheoleiddiwr gwasanaethau, nid yw'r gofynion presennol o ran gwybodaeth a dogfennaeth yn ddiffygiol nac yn ddiangen ychwaith. Mae'r gofynion o ran gwybodaeth a dogfennaeth yn y rheoliadau drafft o dan adran 6(1)(d) yn seiliedig, felly, ar y rheoliadau sy'n bodoli eisoes (Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002) ond mae'r gofynion wedi'u haddasu ar gyfer y model newydd o reoleiddio gwasanaethau ac mae'r iaith a'r derminoleg wedi'u diweddarau.

Mae'r rheoliadau sy'n bodoli eisoes yn cynnwys cyfeiriad at ddogfen a elwir yn 'ddatganiad o ddiben'. Datganiad ysgrifenedig yw hwn yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y gwasanaeth sydd i'w ddarparu – y mae'r gofynion ar ei gyfer wedi'u nodi yn y rheoliadau presennol penodol i asiantaethau, sefydliadau a gwasanaethau. Roedd grŵp technegol y rhanddeiliaid yn cefnogi cadw rhyw ffurf ar ddatganiad o ddiben. O dan y rheoliadau drafft, mae'n ofynnol cyflwyno datganiad o ddiben wrth wneud cais i gofrestru pob gwasanaeth, ac mae'r rheoliadau yn rhagnodi beth y dylai'r datganiad hwnnw gynnwys. Y bwriad yw y bydd yn cynnwys gwybodaeth a fydd yn cynorthwyo'r rheoleiddiwr gwasanaethau i ddod i benderfyniad. Bwriedir hefyd gynnwys gofyniad arall yn y rheoliadau i'w gwneud o dan adran 27 o'r Ddeddf i'r

darparwr gwasanaeth gyflwyno'r gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben ac i ddiweddar'u datganiad o ddiben yn rheolaidd. Bydd y datganiad o ddiben cychwynnol yn rhan o'r ffurflen gais. Bydd templed ar gyfer y datganiad o ddiben wedi'i ddiweddar'u hefyd ar gael ar wefan y rheoleiddiwr. Y bwriad yw y bydd systemau TGCh y rheoleiddiwr gwasanaethau yn gallu lleihau'r beichiau gweinyddol ar ddarparwyr, er enghraifft, drwy lenwi'r datganiad wedi'i ddiweddar'u yn awtomatig, lle bo hynny'n briodol. Nid yw'n fwriad ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi'r datganiad o ddiben. Fodd bynnag, bydd hi yn ofynnol cynnwys rhywfaint o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y datganiad o ddiben yr ystyrir ei bod o ddiddordeb i ddinasyddion, ac yn arbennig y rheini sy'n ceisio gofal a gwasanaethau cymorth ar gyfer nhw eu hunain neu eu hanwyliaid, yn natganiadau blynyddol darparwyr o dan adran 10 o'r Ddeddf. Mae rhagor o fanylion i'w gweld isod.

Mae adran 6(2) yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud yn rhagnodi ffurf y cais. Dylid defnyddio'r ffurflen gais a gyhoeddir ar wefan y rheoleiddiwr gwasanaethau. Y bwriad yw y bydd systemau TGCh y rheoleiddiwr gwasanaethau yn caniatáu i geisiadau i gofrestru gael eu gwneud ar-lein.

Rheoliadau ynghylch Datganiadau Blynyddol Darparwyr (ATODIAD B)

Mae adran 10 o'r Ddeddf yn gosod gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau i lunio datganiad blynyddol. Diben y polisi yw mai dogfen gyhoeddus fydd datganiad blynyddol y darparwyr a fydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan y rheoleiddiwr gwasanaethau ynghyd ag adroddiad arolygu diweddaraf y darparwyr gwasanaethau. Sicrhau mwy o dryloywder a rhoi mynediad i bobl at wybodaeth berthnasol, er mwyn penderfynu pa wasanaeth fydd orau i'w hanghenion a'u galluogi i gymharu darparwyr gwasanaethau â'i gilydd, yw'r amcan. Nod y rheoliadau drafft yw sicrhau ei bod yn ofynnol i bob darparwr gwasanaeth, beth bynnag y bo ei faint neu ei strwythur corfforaethol, lenwi datganiad blynyddol mewn modd cyson. Bwriedir y bydd yr wybodaeth sy'n ofynnol yn natganiadau blynyddol darparwyr yn gymesur, yn seiliedig ar ffeithiau, ac yn gyfredol a chyson ar draws y gwasanaethau.

Mae'n ofynnol o dan y Ddeddf i bob darparwr gwasanaeth gyflwyno datganiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ariannol ddod i ben. Mae rhywfaint o'r wybodaeth sy'n rhaid ei chynnwys yn natganiadau blynyddol darparwyr wedi'i gosod ar wyneb y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gofrestriad y darparwr, enw'r unigolyn cyfrifol a nifer y personau y mae gwasanaethau gofal a chymorth wedi'u darparu ar eu cyfer. Mae adran 10(2) yn caniatáu i reoliadau ei gwneud yn ofynnol i ragor o wybodaeth gael ei chynnwys yn natganiadau blynyddol darparwyr, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddi a chynllunio'r gweithlu. Gwybodaeth feintiol, yr ystyrir y bydd o ddefnydd i'r cyhoedd, ac sy'n wrthrychol ac yn hawdd ei chymharu, sydd wedi cael y ffocws pennaf yma. Mae llawer o'r wybodaeth hon yn cael ei darparu eisoes –

er enghraifft, wrth gofrestru neu drwy'r datganiad o ddiben wedi'i ddiweddarau – felly ni fydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar y darparwr gwasanaeth. Bydd yr wybodaeth ansoddol am y gwasanaeth yn cael ei chynnwys yn y gofynion o dan adran 10(b) – gweler isod.

Mae adran 10(3) yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud yn rhagnodi ffurf datganiadau blynyddol darparwyr. Dylid defnyddio'r un ffurf ar y datganiad blynyddol â'r un a gyhoeddir ar wefan y rheoleiddiwr gwasanaethau. Y bwriad yw y bydd systemau TGCh y rheoleiddiwr gwasanaethau yn caniatáu i ddatganiadau blynyddol darparwyr gael eu cyflwyno ar-lein a, lle bo hynny'n berthnasol, i'r wybodaeth yn y datganiadau blynyddol gael ei llenwi'n awtomatig. Bydd yn ofynnol i'r darparwyr gwasanaethau a'r unigolyn cyfrifol wirio bod yr wybodaeth yn gywir, a gwneud datganiadau i'r perwyl hwnnw.

Mae adran 10(4) yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud sy'n pennu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiadau blynyddol darparwyr. Mae'r rheoliadau drafft yn darparu fel bod y terfyn amser yn 28 o ddiwrnodau wedi i'r flwyddyn ariannol ddod i ben.

Yn unol ag adran 10(2)(b), mae'n ofynnol cynnwys gosodiad yn y datganiad yn egluro sut mae'r darparwr gwasanaeth wedi cydymffurfio â rheoliadau a wnaed o dan adran 27(1) o'r Ddeddf yn rhagnodi safon y gofal a chymorth y mae'n rhaid i ddarparwr gwasanaeth ei darparu. Mae rheoliadau o dan adran 27, yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau, yn cael eu datblygu yn ystod yr ail gam. Nid yw adran 10(2)(b) yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau. Ar hyn o bryd, mae darparwyr gwasanaethau yn ymgymryd ag adolygiad blynyddol o ansawdd gwasanaethau ac yn darparu adroddiad ansawdd i'r rheoleiddiwr gwasanaethau ar bob un o'u gwasanaethau. Defnyddir yr adroddiadau hyn i lywio arolygiadau ond nid yw'n ofynnol eu cyhoeddi. Y bwriad yw y bydd rheoliadau a fydd yn cael eu gwneud o dan adran 28, yn gosod gofynion ar unigolion cyfrifol, yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn cyfrifol gynnal adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal a gynigir gan bob gwasanaeth a bod canlyniad yr adolygiad hwnnw yn bodloni'r gofynion yn adran 10(2)(b). O ganlyniad, bydd y gofyniad hwn yn cael ei fodloni heb osod gofynion adrodd ychwanegol ar ddarparwyr.

Rheoliadau ynghylch Cais i Amrywio Cofrestrriad fel Darparwr Gwasanaeth (ATODIAD A)

Mae adran 11 o'r Ddeddf yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer cyflwyno cais i amrywio cofrestrriad fel darparwr gwasanaeth. Gall amrywiadau gynnwys darparu mwy o wasanaethau neu ddarparu gwasanaeth a gynigir eisoes o fan arall a rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth neu i ddarparu gwasanaeth o fan penodol. Yn unol â'r Ddeddf, rhaid i gais am amrywio cofrestrriad gynnwys manylion yr amrywiad y mae'r darparwr yn ei geisio. Mae'r gofynion mewn

perthynas ag amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth i'w cael yn y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 drafft. Bydd y rheoliadau hyn yn sicrhau bod ceisiadau ar gyfer amrywio yn addas i'r diben ac yn cynnwys y lefel ofynnol o fanylion i'r rheoleiddiwr allu dod i benderfyniad.

Diben y polisi yw cyflwyno system reoleiddio sy'n fwy hyblyg a syml. Mae'n fwriad hefyd osgoi dyblygu'n ddiangen y gofynion o ran gwybodaeth a dogfennaeth pan fo darparwyr gwasanaethau eisoes wedi bodloni'r gofynion cofrestru cychwynnol.

Mae adran 11(2) yn caniatáu ar gyfer gosod terfyn amser i gyflwyno cais i amrywio cofrestriad mewn amgylchiadau lle nad oes unigolyn cyfrifol penodedig mwyach. Mae'r rheoliadau drafft yn darparu mai 28 o ddiwrnodau fydd y terfyn amser hwn.

Mae adran 11(3)(a)(iii) yn bŵer gwneud rheoliadau i ragnodi'r wybodaeth bellach sydd i'w chynnwys yn y cais i amrywio cofrestriad. Mae rheoliadau drafft 5 i 8 yn rhagnodi'r gofynion o ran yr wybodaeth a'r ddogfennaeth sydd i'w darparu wrth gyflwyno cais i amrywio cofrestriad. Y bwriad yw y bydd systemau TGCh y rheoleiddiwr gwasanaethau yn gallu symleiddio'r broses ar gyfer cyflwyno ceisiadau i amrywio cofrestriad. Bwriedir y bydd y systemau yn gallu didoli gwybodaeth nad oes angen ei darparu oherwydd ei bod eisoes gan y rheoleiddiwr.

Mae adran 11(3)(b) yn bŵer gwneud rheoliadau i ragnodi ffurf y cais. Dylid defnyddio'r un ffurf a ddarperir ar wefan y rheoleiddiwr. Y bwriad yw y bydd systemau TGCh y rheoleiddiwr gwasanaethau yn caniatáu i geisiadau i amrywio cofrestriad gael eu cyflwyno ar-lein.

Rheoliadau ynghylch hysbysu awdurdodau lleol (ATODIAD C)

Mae awdurdodau lleol yn gomisiynwyr gwasanaethau rheoleiddiedig ac yn geidwaid swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid eu hysbysu pan fo camau penodol wedi'u cymryd yn erbyn darparwr gwasanaeth gan y rheoleiddiwr gwasanaethau (AGGCC). Mae hyn yn caniatáu i'r awdurdod lleol gymryd camau priodol, lle y bo angen, i sicrhau diogelwch y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a reolir gan y darparwr hwnnw.

Mae adran 39 o'r Ddeddf yn cadw'r dyletswyddau presennol i roi gwybod i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr am gamau penodol a gymerir gan y rheoleiddiwr ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae adran 39(1) o'r Ddeddf yn rhestru'r camau a fydd yn arwain at hysbysiad. Mae adran 39(1)(g) yn bŵer gwneud rheoliadau i ragnodi'r camau eraill y dylid hysbysu awdurdodau lleol ohonynt ac mae adran 39(2) yn bŵer i ragnodi'r wybodaeth i'w chynnwys yn yr hysbysuadau hyn.

Mae'r pŵer yn adran 39(1)(g) yn cael ei ddefnyddio i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi gwybod i awdurdodau lleol am apeliadau gan ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â phenderfyniadau rheoleiddio allweddol a wneir gan y rheoleiddiwr a'r Llys, ill dau, a'r penderfyniadau dilynol a wneir gan y tribiwnlys yn sgil unrhyw apêl o'r fath.

Mae'r gofynion o ran gwybodaeth a nodir yn y pwerau gwneud rheoliadau o dan adran 39(2) yn dilyn y dull a fabwysiadwyd o dan Reoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Hysbysu) (Cymru) 2011. Roedd y rheoliadau drafft yn egluro'n fanwl yr wybodaeth y dylid ei chynnwys ym mhob hysbysiad.

Diffinio Gwasanaethau Eirioli

Mae adran 2(1)(g) o'r Ddeddf yn cydnabod gwasanaethau eirioli fel gwasanaethau rheoleiddiedig. I gydnabod yr amrywiaeth eang o wasanaethau eirioli sydd ar gael i bobl, cymerodd Gweinidogion Cymru bwerau i ragnodi drwy reoliadau y math o wasanaethau eirioli a fydd yn dod o dan gwmpas y Ddeddf.

O dan y Ddeddf bydd yn drosedd i berson ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig heb iddo fod wedi'i gofrestru. Mae ein cynigion ar gyfer yr hyn y mae'n ei olygu i ddarparwyr gwasanaethau eirioli fel gwasanaeth rheoleiddiedig wedi'u hamlinellu uchod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith datblygu â grŵp technegol bach yn cynnwys cynrychiolwyr sydd ag arbenigedd mewn eirioli, a gwybodaeth dechnegol amdano a phrofiad ymarferol ohono. Mae'r Grŵp wedi awgrymu y dylai Gweinidogion Cymru gysoni'r diffiniad o wasanaethau eirioli o dan Ddeddf 2016 â'r diffiniad o Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol a geir yn y cod ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag eirioli o dan Ran 10 a Rhannau cysylltiedig Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part10en.pdf>).

Mae eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn golygu partneriaeth un i un rhwng eiriolwr proffesiynol annibynnol sydd wedi'i hyfforddi i weithio am dâl fel eiriolwr proffesiynol [ac fel unigolyn]. Gall y gwaith ymwneud ag un mater yn unig neu amryw o faterion. Mae'n rhaid i eiriolwyr proffesiynol annibynnol sicrhau bod safbwyntiau unigolion yn cael eu cyfleu yn gywir, waeth beth yw safbwynt yr eiriolwr ei hun neu safbwynt eraill ynglŷn â'r hyn sydd o fudd pennaf i'r unigolion.

Mae hyn i adlewyrchu'r rôl y bydd Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol yn ei chwarae i fynegi eu barn, dymuniadau a'u teimladau pan fo awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf 2014.

Mae hwn yn faes cymhleth lle mae gan unigolion hawliau statudol i eiriolaeth o dan wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth. Cynigir na ddylai'r gofynion a orfodir drwy fframwaith gwasanaeth rheoleiddiedig Deddf 2016 ymestyn i hawliau i eiriolaeth megis y Ddeddf Iechyd Meddwl, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 na Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 nac unrhyw ddeddfwriaeth arall a ragnodir o dan adran 182 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Rydym yn rhagweld y bydd rhai sefydliadau yn darparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (fel y'i diffinnir gan y cod) ond dim ond un o nifer o swyddogaethau a gwasanaethau y bydd y sefydliad hwnnw yn eu darparu i unigolion fydd y gwasanaeth hwn. Yn ein barn ni, byddai gofynion Deddf 2016 ond yn gymwys i'r elfen Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn hytrach nag i'r ystod gyfan o raglen swyddogaethau a gwasanaethau sefydliad a allai gynnwys, er enghraifft, wybodaeth, cyngor a chymorth neu gwnsela.

Ni fyddai gofynion Deddf 2016 yn gymwys ychwaith i'r ystod o wasanaethau eirioli eraill y'i nodwyd ym Mhennod 8 y cod ymarfer ar eiriolaeth, er enghraifft, eiriolaeth anffurfiol, ar y cyd neu gan gymheiriaid. Byddai gofynion Deddf 2016 ond yn gymwys i Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol, er mwyn rhoi eiriolaeth i gefnogi unigolion i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau fel a ragnodir yn y cod ymarfer ar eiriolaeth.

Mae adran 79(1)(b) a (c) o Ddeddf 2016 yn diffinio gweithiwr gofal cymdeithasol at ddibenion gwasanaethau eirioli o dan y Ddeddf. Bydd hyn yn cynnwys person:-

- i. sy'n rheoli man y darperir gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo neu ohono; neu
- ii. sydd, yn ystod ei gyflogaeth â darparwr gwasanaeth, yn darparu gofal a chymorth i unrhyw berson yng Nghymru mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan y darparwr hwnnw.

Yn amodol ar y cynigion ymgynghori uchod sy'n diffinio gwasanaethau eirioli o dan y Ddeddf, bydd eiriolwyr proffesiynol annibynnol yn dod o dan y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol fel y'i diffiniwyd yn adran 79(1)(b) ac adran 79(1)(c), ill dwy.

Gall unigolion sy'n dod o dan y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol fod yn destun y gofynion yn Rhannau 3 i 8 o'r Ddeddf. Mae hyn yn golygu y byddai eiriolwr proffesiynol annibynnol yn:

- dod o dan gwmpas swyddogaethau Gofal Cymdeithasol Cymru
- destun codau y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn eu cynhyrchu
- dod o dan yr ystod o weithgareddau y mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru ddyletswydd i ddarparu safonau uchel o wasanaethau, ymddygiad ac ymarfer etc ar eu cyfer.

Byddai'r gofyniad i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ond yn gymwys pe byddai eiriolwyr annibynnol yn cael eu cynnwys yn y disgrifiadau o weithwyr gofal cymdeithasol a ragnodir mewn rheoliadau o dan adran 80(1)(b).

Cynigir mai dim ond i ragnodi'r rheini sy'n rheoli man y mae gwasanaethau eirioli perthnasol yn cael eu darparu ynddo neu ohono y dylai Gweinidogion Cymru arfer y pŵer hwn.

Byddai hyn yn ychwanegol i'r angen i'r eiriolwr ar ran y practis eirioli gofrestru fel darparwr gwasanaeth o dan Ran 1 o'r Ddeddf.

Mae rhagor o fanylion am y cynigion sy'n ymwneud â gofynion rheoliadau'r gweithlu i'w gweld yn y paragraffau canlynol.

Rheoliadau'r Gweithlu

Crynodeb o reoliadau'r gweithlu

- Mae chwe set o reoliadau'r gweithlu yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Byddant yn cael eu gwneud gan ddefnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau o dan adrannau 79, 80, 91, 110, 174 a 175 o'r Ddeddf.
- Mae'r rheoliadau hyn yn ymwneud ag ystyr 'gweithiwr gofal cymdeithasol'; cynnwys y gofrestr a gynhelir gan Gofal Cymdeithasol Cymru, ffurf a chynnwys y rhestr o bersonau sydd wedi'u dileu o'r rhestr a'r ddyletswydd i sefydlu panel a'r achosion gerbron paneli.
- Mae'r rheoliadau wedi'u datblygu gan ddefnyddio'r rheoliadau a'r rheolau presennol o dan y Ddeddf Safonau Gofal fel fframwaith i adeiladu arno.

Rheoliadau ynghylch ystyr “Gweithiwr Gofal Cymdeithasol” (ATODIAD D)

Mae adran 79(1) yn egluro ystyr 'gweithiwr gofal cymdeithasol' at ddibenion Rhannau 3 i 8 o'r Ddeddf. Mae'r rheoliadau a ddrafftwyd o dan adran 79(2) yn rhagnodi'r gweithwyr hynny sydd i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae'r rhestr yn deillio o hyn, sydd wedi'i gosod ar wyneb y Ddeddf yn adran 79(3), yn cyfateb yn fras â'r un bresennol ac mae'n cynnwys yr unigolion cyfrifol hynny a ddynodir gan ddarparwyr gwasanaethau, gweithiwr cymdeithasol dan hyfforddiant, arolygwyr gwasanaethau gofal a phersonau sy'n darparu gofal a chymorth mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chymorth nad ydynt yn “wasanaethau rheoleiddiedig”. Mae'r rheoliadau hyn yn allweddol i sicrhau eglurder ynghylch pwy sy'n weithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion y Ddeddf ac ar gyfer gweithgareddau Gofal Cymdeithasol Cymru.

Rheoliadau ynghylch y Gofrestr (ATODIAD E)

Mae adran 80 yn ymwneud â chofrestr y gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol a ragnodir a gweithwyr cymdeithasol sydd ar ymweliad o Wladwriaethau Ewropeaidd sydd i'w chadw gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r rheoliadau arfaethedig o dan adran 80(1)(b) yn rhagnodi'r categorïau o weithwyr gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r rheini a ragnodir yn y Ddeddf, y mae'n ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr ohonynt. Yn benodol, rheolwyr gwasanaethau rheoleiddiedig, gweithwyr gofal preswyl plant a gweithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant yw'r rhain. Mae'r rheoliadau hyn yn gwireddu ein diben polisi: bod y rheini y mae'n ofynnol iddynt gofrestru ar hyn o bryd yn mynd i barhau i gael eu cofrestru. Mae'r rheoliadau hyn yn ofynnol i alluogi gweithwyr o'r fath i barhau i gael eu cofrestru o dan y Ddeddf.

Rheoliadau ynghylch cynnwys y Gofrestr (ATODIAD F)

Mae adran 91 yn ymwneud â chynnwys y gofrestr sy'n cael ei chadw gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r rheoliadau a gynigir o dan adran 91(1)(c) yn rhagnodi'r cymwysterau, gwybodaeth neu brofiad arall y mae'n rhaid eu cynnwys yng nghofnod person ar y gofrestr. Bydd defnyddio hyn yn cynnwys, er enghraifft, y cymwysterau sydd eu hangen i ymgymryd â rolau penodol mewn gofal cymdeithasol. Mae rheoliadau adran 91(1)(d) yn rhagnodi bod gwybodaeth yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer y person sy'n cofrestru yn cael ei gynnwys yn y cofnod ar y gofrestr. Mae darpariaeth gyffelyb wedi'i chynnwys ar hyn o bryd yn y rheolau a wnaed gan y Cyngor Gofal. Mae'r rheoliadau yn rhagnodi gwybodaeth gyffelyb i'r hyn sy'n ymddangos ar y gofrestr ar hyn o bryd mewn perthynas ag addasrwydd person sydd wedi ei gofrestru i ymarfer. Bydd hyn yn golygu bod unrhyw benderfyniad bod amhariad ar addasrwydd person i ymarfer, ac unrhyw sancsiynau presennol ar addasrwydd person i ymarfer, gan gynnwys manylion unrhyw amodau ymarfer (ar wahân i'r rheini sy'n ymwneud ag iechyd y person sydd wedi ei gofrestru) yn cael eu cofnodi ar y gofrestr. Mae cael eglurder ynghylch cynnwys y gofrestr yn rhan annatod o reoleiddio'r gweithlu.

Rheoliadau ynghylch y rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y Gofrestr (ATODIAD G)

Yn unol ag adran 110, mae'n ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru gadw rhestr o bersonau sydd wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr. Mae'r rheoliadau a gynigir o dan adran 110(6) yn rhagnodi cynnwys y rhestr a sut y caiff ei chyhoeddi. Yn unol â'r rheoliadau, rhaid cofnodi enw'r person dan sylw a dyddiad ac amgylchiadau ei dynnu oddi ar y rhestr, a rhoddir y dasg o gyhoeddi'r rhestr i Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae cychwyn a chadw rhestr gyhoeddedig o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr yn rhan annatod o reoleiddio'r gweithlu a chadw hyder y cyhoedd.

Rheoliadau ynghylch y ddyletswydd i sefydlu paneli etc (ATODIAD H)

Mae adran 174 yn ymwneud â'r gofyniad i Gofal Cymdeithasol Cymru sefydlu paneli. O dan y rheoliadau a gynigir yn adran 174(5)(b), mae pobl sy'n gysylltiedig â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r rheini sydd eisoes wedi cymryd rhan mewn ymchwilio i'r mater dan sylw yn cael eu hychwanegu at y rhestr o bersonau na allant fod yn aelod o banel. Bydd hyn yn sicrhau bod pob math o banel wedi'i wahanu digon i roi annibyniaeth i'r holl brosesau panel.

Rheoliadau ynghylch achosion gerbron paneli (ATODIAD I)

Mae adran 175 yn ymdrin ag achosion gerbron paneli. Mae'r rheoliadau arfaethedig o dan adran 175(1) yn gwneud darpariaeth yn gysylltiedig ag achosion gerbron paneli cofrestru; gorchmynion paneli dros dro; a phaneli addasrwydd i ymarfer. Er enghraifft, maent yn sicrhau mai tegwch fydd prif amcan pob panel.

Rheoliadau ynghylch Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol (ATODIAD J)

Mae adran 56 o'r Ddeddf yn diwygio Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i fewnosod adran 144A, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio adroddiad blynyddol ar arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Dylai'r adroddiad blynyddol fod ar y ffurf a ragnodir gan reoliadau o dan adran 144A (4).

Mae'r rheoliadau drafft hyn yn nodi y dylai'r adroddiad blynyddol fod ar ffurf templed a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. O ganlyniad, bydd adroddiadau yn cael eu safoni a byddant yn fwy eglur, gan ganiatáu i'r awdurdodau lleol gael eu cymharu â'i gilydd. Mae'r cynnwys sydd i'w roi yn yr adroddiadau hyn eisoes wedi'i nodi yn y Cod Ymarfer ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, a wnaed o dan Ran 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cafodd hwn ei ddatblygu gan grŵp technegol a oedd yn cynnwys partneriaid allweddol, ac ymgynghorwyd arno yn 2015, a'i gyhoeddi yn dilyn hynny ym mis Mawrth 2016:

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/160322part8en.pdf>

Mae'r templed yn cael ei ddatblygu gyda phartneriaid allweddol. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar y cyd â'r rheoliadau pan fyddant yn cael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n briodol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Rheoliadau ar Wasanaeth

Rheoliadau ynghylch Ceisiadau i Gofrestru fel Darparwr Gwasanaeth

1. Ydych chi'n cytuno bod y gofynion o ran gwybodaeth a dogfennaeth fel y'u hamlinellir yn y rheoliadau drafft yn berthnasol ac yn gymesur? Os nad ydych, pam?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch Ceisiadau i Gofrestru fel Darparwr Gwasanaeth

2. A oes unrhyw ofynion eraill y dylid eu hystyried? Os felly, beth ydyn nhw?

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch Datganiadau Blynyddol Darparwyr

3. Ydych chi'n cytuno bod y gofynion ar gyfer cynnwys datganiadau blynyddol darparwyr, fel a amlinellir yn y rheoliadau drafft, yn ddigonol i roi i'r cyhoedd yr wybodaeth sydd arnynt ei hangen i benderfynu pa wasanaethau sydd orau ar gyfer eu hanghenion ac i'w galluogi i gymharu darparwyr gwasanaethau â'i gilydd? Os nad ydynt, beth yw'r gofynion eraill?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch Datganiadau Blynyddol Darparwyr

4. Ydych chi'n cytuno â'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno datganiad blynyddol (28 o ddiwrnodau wedi i'r flwyddyn ariannol ddod i ben)?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch Datganiadau Blynyddol Darparwyr

5. A oes unrhyw ofynion sy'n ddiangen? Os felly, pa rai a pham?

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch Cais i Amrywio Cofrestriad fel Darparwr Gwasanaeth

6. Ydych chi'n cytuno bod y gofynion o ran gwybodaeth a dogfennaeth fel y'u hamlinellir yn y rheoliadau drafft yn berthnasol ac yn gymesur? Os nad ydych, pam?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch Cais i Amrywio Cofrestrriad fel Darparwr Gwasanaeth

7. A oes unrhyw ofynion eraill y dylid eu hystyried? Os felly, beth ydyn nhw a pham?

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch Cais i Amrywio Cofrestrriad fel Darparwr Gwasanaeth

8. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig ar gyfer y terfyn amser y mae'n ofynnol gwneud cais i amrywio cofrestrriad yn unol ag ef pan nad oes unrhyw unigolyn cyfrifol?

Cytuno

Tueddu i gytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch hysbysu awdurdodau lleol

9. Ydych chi'n cytuno bod y rhestr o ddigwyddiadau hysbysadwy yn y Ddeddf yn gynhwysfawr? Os nad ydych, pa ddigwyddiadau hysbysadwy eraill yr hoffech chi eu gweld yn cael eu cynnwys?

Cytuno

Tueddu i gytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch hysbysu awdurdodau lleol

10. Ydych chi'n cytuno bod y rheoliadau drafft yn cyflwyno system hysbysu a fydd yn rhoi'r wybodaeth fydd ei hangen arnynt i awdurdodau lleol? Os nad ydych chi, pa wybodaeth yr hoffech chi ei gweld yn cael ei hepgor o'r adroddiad neu ba wybodaeth arall ydych chi o'r farn y byddai'n werthfawr ei chynnwys?

Cytuno

Tueddu i gytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno

Eglurwch

Rheoliadau'r Gweithlu

Rheoliadau ynghylch ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol"

11. Ydych chi'n cytuno gyda'r diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol sy'n cael ei gynnig?

Cytuno

Tueddu i gytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol"

12. Ydych chi'n cefnogi'r holl bersonau y'u rhestrir yn y ddogfen ymgynghori fel rhai sy'n cael eu hystyried yn weithwyr gofal cymdeithasol? Os nad ydych, pam?

Cytuno

Tueddu i gytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch ystyr “Gweithiwr Gofal Cymdeithasol”

**13. Ydych chi'n meddwl y dylem eithrio disgrifiadau o bersonau penodol?
Os felly, pwy a pham?**

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch ystyr “Gweithiwr Gofal Cymdeithasol”

**14. Oes unrhyw risgiau ynghlwm wrth barhau â dull eang a chynhwysol –
er enghraifft, oes yna unrhyw grwpiau y gallai fod yn anghymesur
disgwyl iddynt fodloni gofynion y Cod Ymarfer? Oes yna risg y gallai
gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru gael ei wanhau drwy barhau â dull
eang, fel na fydd yn canolbwyntio digon ar y rheini sydd wrth galon y
sector?**

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch y Gofrestr

**15. Ydych chi'n ystyried bod y dull presennol ar gyfer cofrestru gweithwyr
cymdeithasol yn gweithio'n dda? Oes unrhyw faterion wedi codi?**

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch y Gofrestr

16. A oes unrhyw beth ynglŷn â'r rheoliadau arfaethedig ynghylch y gofrestr nad yw'n fuddiol neu sy'n achosi problemau mewn unrhyw ffordd?

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch cynnwys y Gofrestr

17. Ydych chi'n cytuno bod y rheoliadau sy'n berthnasol i gymwysterau yn gofyn am gynnwys yr ystod gywir o wybodaeth ar y gofrestr?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch cynnwys y Gofrestr

18. A ddylai'r rheoliadau efelychu'r sefyllfa bresennol o ran cynnwys penderfyniadau ynghylch addasrwydd personau i ymarfer? Oes unrhyw anfanteision i'r dull hwn?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch y rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y Gofrestr

19. Ydy'r ystod o wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys ar y rhestr o dan y rheoliadau yn gywir?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch y rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y Gofrestr

20. Ydy'r rheoliadau yn rhoi'r dull cywir ar waith ar gyfer cyhoeddi'r rhestr?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch y ddyletswydd i sefydlu paneli etc

21. Ydych chi'n cytuno â'r dull o eithrio pobl rhag bod yn aelod o amrywiol baneli? Os nad ydych, eglurwch pam.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch

Rheoliadau ar achosion gerbron paneli

22. Ydych chi'n cytuno â chynnwys y rheoliadau sy'n ymwneud â'r ffordd y bydd paneli yn gweithredu? Os nad ydych, eglurwch pam.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch achosion gerbron paneli

23. Ydych chi'n cytuno bod y rheoliadau yn canolbwyntio ar faterion y dylid eu cynnwys mewn rheoliadau?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch

Rheoliadau ynghylch Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol

24. Ydych chi'n ystyried bod y dull arfaethedig yn ddigonol i gefnogi ein hamcanion ar gyfer Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Eglurwch

Rheoleiddio Gwasanaethau Eirioli

25. Ydych chi'n cytuno y dylai rheoleiddio gwasanaethau eirioli ganolbwyntio ar Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol fel y'i diffinnir yn y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag eiriolaeth o dan Ran 10 a Rhannau cysylltiedig o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?

Cytuno

Tueddu i gytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno

Eglurwch

26. Ydych chi'n ystyried y dylai gofynion Deddf 2016 fod yn gymwys i ymarferydd unigol sy'n gweithredu fel busnes annibynnol? Os nad ydych, rhowch dystiolaeth gryno.

Cytuno

Tueddu i gytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno

27. Ydych chi'n ystyried y dylid gweithredu gofynion Deddf 2016 ar gyfer gwasanaethau eirioli fesul sector, ee gwasanaethau eirioli ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant penodedig eraill a wedyn eiriolaeth broffesiynol annibynnol? Os felly, rhowch dystiolaeth gryno.

Cytuno

Tueddu i gytuno

Tueddu i anghytuno

Anghytuno

Eglurwch

28. Beth yw'r effaith ddisgwyliedig ar ddarparwyr eiriolaeth fel gwasanaeth cofrestredig o dan y Ddeddf?

Eglurwch

29. Ydych chi'n cytuno mai dim ond y rheini sy'n rheoli gwasanaethau eirioli, fel gwasanaeth rheoleiddiedig, ddylai orfod cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru? Os nad ydych, rhowch dystiolaeth gryno.

Cytuno

Tueddu i gytuno

Tueddu i
anghytuno

Anghytuno

Eglurwch

Arall

Mae diddordeb gan Lywodraeth Cymru ddeall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Dyma'r nodweddion gwarchoddedig: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodi a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

30. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pam/pam ddim?

31. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pam/pam ddim?

32. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w cofnodi.

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, rhowch BYDDAI yn y blwch.	
---	--
